# Trydan Gwyrdd Cymru

## Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

## Arweinydd Peirianneg

Hybrid / Llawn Amser

2 Ebrill 2024

Cyfeirnod: TGCPE



# Cynnwys


Croeso gan Lywodraeth Cymru ........ 3
Amdanom ni ........ **Error! Bookmark not defined.**
Y rôl ........ **Error! Bookmark not defined.**
Amodau a thelerau penodi ........ 9
Llinell amser ddangosol ........ **Error! Bookmark not defined.**
Sut i wneud cais ........ **Error! Bookmark not defined.**
Gwybodaeth bellach am y rôl ........ **Error! Bookmark not defined.**
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ........ 10
Y Gymraeg ........ **Error! Bookmark not defined.**
Caniatâd Data ........ 11
Monitro amrywiaeth ........ **Error! Bookmark not defined.**

# Croeso gan Lywodraeth Cymru



Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am fynegi diddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon gyda Trydan Gwyrdd Cymru. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddwyd y byddai Cymru'n sefydlu datblygwr ynni adnewyddadwy ym mherchnogaeth y cyhoedd. Mae hwn yn fuddsoddiad cynaliadwy hirdymor a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n bwriadu rhoi sero net a chymunedau Cymru wrth wraidd y newid sydd ei angen i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol newid yn yr hinsawdd.

Ein nod yw cael mwy nag un gigawat o ynni glân dan berchnogaeth leol erbyn 2040. Bydd y datblygwr ynni newydd sydd ym mherchnogaeth y wladwriaeth yn cyflymu’r broses o gyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy ar draws ystad gyhoeddus Cymru, yn bennaf trwy dechnolegau ynni gwynt ar y tir a solar ffotofoltaig. Mae gennym gyfle gwirioneddol yma i gynhyrchu incwm a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi i wella bywydau pobl yng Nghymru yn ogystal â chreu swyddi ynni glân o ansawdd da. Bydd y cwmni newydd hwn yn sbarduno dull newydd o sicrhau buddiannau o ynni adnewyddadwy sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau. Mae’r argyfwng costau byw presennol yn tanlinellu pwysigrwydd ynni yn ein cymdeithas a bydd cynnwys pobl wrth ddatblygu modelau gwahanol o rannu buddiannau yn hanfodol i lwyddiant y cwmni.

Fel cwmni newydd, rydyn ni’n awyddus i ehangu ein tîm drwy recriwtio arweinydd peirianneg ynni adnewyddadwy i gyflawni rôl ein harbenigwr mewnol ar bob mater peirianyddol. Gan weithio gyda thîm bach o reolwyr prosiect a chydlynwyr technegol, bydd deiliad y swydd yn cyflawni cyfres o brosiectau gwynt ynni adnewyddadwy ar y tir sydd wedi'u lleoli ar draws Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Byddwch yn defnyddio’ch arbenigedd peirianyddol i ddatblygu a dylunio seilwaith sifil a thrydanol ffermydd gwynt, gan helpu i nodi risgiau prosiect, ac argymell datrysiadau peirianyddol. Dyma gyfle gwych i rywun sy'n chwilio am her newydd i fod yn rhan o rywbeth o'r cychwyn cyntaf i greu dyfodol mwy cynaliadwy i bawb. Os ydych chi'n teimlo bod gennych chi'r cymwysterau a'r profiad perthnasol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Mae rhagor o fanylion am y rôl a gofynion y swydd yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr hwn. Rwy'n gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi ac y cewch eich ysbrydoli i wneud cais i ymuno â ni.



Richard Evans
**Prif Swyddog Gweithredol**

# Amdanom ni

## Cefndir

Bydd datblygwr ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth gyhoeddus Llywodraeth Cymru, Trydan Gwyrdd Cymru, yn cyflawni ei amcan strategol i gyflymu datblygiad ynni adnewyddadwy ar Ystad Gyhoeddus Cymru.

Amcan strategol cyffredinol y cwmni yw gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru trwy gyflawni 1 gigawat o ynni adnewyddadwy newydd dan berchnogaeth leol erbyn 2040. Byddwn yn cyflawni hyn trwy symud oddi wrth y model cyflenwi presennol, sef prydlesu tir cyhoeddus i ddatblygwyr masnachol, i fodel lle mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu portffolio o brosiectau ar yr ystad gyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod gwerth ariannol y prosiectau hyn yn aros yma yng Nghymru a bod eu cynnyrch yn cyfrannu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at ddarparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i'r genedl gyfan.

## Ein nod

Ein huchelgais yw i Gymru fod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang[1].

*"Ein gweledigaeth yw i Gymru gynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddiwallu ein hanghenion ynni yn llawn o leiaf a defnyddio unrhyw ynni dros ben i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Byddwn yn cyflymu'r camau gweithredu i leihau'r galw am ynni ac i sicrhau cymaint o berchnogaeth leol â phosibl gan gadw buddiannau economaidd a chymdeithasol yng Nghymru".*

## Y sefyllfa bresennol

Mae trefniadau pontio ar waith i sefydlu'r cwmni yn ffurfiol, gyda dyddiad lansio disgwyliedig o 1 Ebrill 2024. Ffurfiwyd tîm rheoli cychwynnol ym mis Tachwedd 2021 gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Partneriaethau Lleol, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Y llynedd, aethom ati i roi cychwyn ar gyfres o ymgyrchoedd recriwtio a arweiniodd at benodi ein Prif Weithredwr newydd, Richard Evans, a'n Cadeirydd, Llyr Roberts. Rydyn ni hefyd yn falch ein bod wedi gallu

[1] Gwaith ymchwil manwl ynni adnewyddadwy 8 Rhagfyr 2021

penodi i sawl rôl allweddol arall, gan gynnwys Cyfarwyddwr Datblygu, Pennaeth Cynnwys y Cyhoedd a thîm o Reolwyr Prosiectau.

Mae meysydd gwaith allweddol wedi canolbwyntio ar ddiffinio'r ffyrdd o weithio, gwneud gwaith dichonoldeb cynnar ar brosiectau peilot, cynllunio adnoddau ar gyfer adolygu ystad gyhoeddus Cymru a datblygu strategaeth gaffael.

Sefydlwyd Bwrdd Dros Dro ym mis Ionawr 2022 sy'n cynnwys aelodaeth o Drysorlys Llywodraeth Cymru, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Cyllid, Llywodraeth Leol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyfarwyddwyr anweithredol o'r sectorau ynni cymunedol a datblygu ynni masnachol.

Rydym yn disgwyl trosglwyddo i'r Bwrdd parhaol erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

## Lleoliad

Bydd y cwmni'n gweithredu gan ddefnyddio model hybrid lle bydd staff yn treulio cyfran o'u hamser yn gweithio gartref. Bydd cyfarfodydd a gweithgareddau ar y cyd eraill yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru mewn gwahanol leoliadau swyddfa ledled Cymru. Bydd Pencadlys y Cwmni ym Merthyr Tudful. Bydd angen i ddeiliad y swydd fod yn hyblyg oherwydd bydd angen teithio o bryd i'w gilydd o gwmpas y wlad.

## Rhagor o wybodaeth am Trydan Gwyrdd Cymru

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/yramgylchedd a newid yn yr hinsawdd/ ynni carbon isel/ ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol.

# Ynglŷn â'r rôl

## Diben y swydd

Fel Arweinydd Peirianneg, byddwch yn gyfrifol am adolygu, mewnbynnu a chymeradwyo dyluniadau seilwaith ar gyfer prosiectau o fewn y portffolio. Bydd gennych gyfrifoldeb dylunio dros sawl prosiect wedi'u lleoli ledled Cymru, a gall y rhain fod ar wahanol gyfnodau yn eu cylch bywyd, o'r asesiad dichonoldeb i'r cyfnod adeiladu.

## Cyd-destun Sefydliadol

Bydd y rôl yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Datblygu a bydd yn gweithio'n agos gyda thîm bach o Reolwyr Prosiectau a Chydlynwyr Technegol Prosiectau i gyflawni cyfres o brosiectau ynni adnewyddadwy. Mae'r portffolio o brosiectau ynni gwynt ar y tir wedi'i leoli ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Bydd disgwyl i chi weithio'n agos gyda Rheolwyr Prosiect a Pheirianwyr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i sicrhau bod prosiectau'n cydymffurfio â'r egwyddorion dylunio cyffredinol ar gyfer integreiddio ffermydd gwynt yn yr Ystad Goed. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid amgylcheddol a thechnegol dan gontract a changen rheoli tir Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni prosiectau adeiladu proffidiol.

## Atebolrwydd Allweddol

Eich cyfrifoldeb cyffredinol yw darparu arbenigedd peirianyddol a chraffu/cymeradwyo asesiadau dichonoldeb peirianyddol a dyluniadau ar gyfer seilwaith sifil a thrydanol ffermydd gwynt. Bydd gogwydd peirianneg sifil cryf i'r rôl, ond bydd angen i chi hefyd fod â dealltwriaeth o'r agweddau trydanol a grid a'r rhyngwynebau rhwng yr elfennau hyn yn nyluniad cyffredinol prosiectau.

### Eich prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau fydd:

- Gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol o arbenigwyr sy'n cefnogi pob cam o’r gwaith o ddatblygu ffermydd gwynt ar y tir.
- Rheoli'r mewnbwn peirianyddol i Ddisgrifiad y Prosiect, y Dyluniad Peirianyddol Rhagarweiniol (Cyn-FEED), trwyddedau a chydsyniadau statudol yn ystod cyfnod datblygu pob prosiect.

- Cyfrifoldeb am ddiffinio, optimeiddio ac integreiddio dyluniad y prosiectau gan roi sylw priodol i ysgogiadau, amserlen a chyllideb fasnachol pob prosiect. Rhoi cymeradwyaeth dechnegol i ddyluniadau a chysyniadau hollbwysig prosiectau.
- Hyrwyddo dyluniad cyson a diogel a sicrhau bod risgiau diogelwch dylunio yn amlwg mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (ALARP). Sicrhau bod unrhyw waith dylunio sifil yn cyd-fynd â Rheoliadau CDM a pholisïau Trydan Gwyrdd Cymru.
- Mewnbwn i strategaeth drafod gyda chyflenwyr a ddewiswyd, creu dogfennau tendro angenrheidiol cyn gwneud cais a chynigion, cymeradwyo dogfennau peirianyddol a manylebau technegol gwahoddiadau i dendro.
- O dan awdurdod dirprwyedig yr arweinydd prosiect, cefnogi datblygiad gwerthusiad risg technegol amserlen prosiect a lliniaru a goruchwylio mesurau LCOE ac arloesi technegol.
- Cefnogi coladu mewnbynnau cost perthnasol ar gyfer elfennau technegol prosiect (e.e. DEVEX, CAPEX ac OPEX).
- Rheoli'r adnoddau allanol sydd eu hangen i wneud gwaith peirianyddol y prosiect, gan sicrhau bod diogelwch dylunio yn cael ei ystyried yn briodol yn y dyluniadau sifil a bod gofynion ansawdd yn cael eu bodloni.
- Dilyn arferion gorau, safonau a chodau'r diwydiant a sicrhau eich bod yn diweddaru eich gwybodaeth amdanynt gyda datblygiad proffesiynol parhaus.
- Ymweld â safleoedd prosiect a cherdded o'u hamgylch i gael gwybodaeth.
- Cefnogi'r Rheolwr Caffael a Chontractau i gaffael arolygon a gwaith ymchwilio i safleoedd o safbwynt geotechnegol a thrydanol.
- Cyflawni rôl y Cleient o dan Reoliadau Rheoli Dylunio Adeiladu 2015 a gweithio'n agos gyda'r prif ddylunydd allanol fel rhan o'r tîm AEA (darperir hyfforddiant priodol, os bydd angen).
- Cymorth gyda mewnbwn technegol i drafodaethau â thirfeddianwyr.
- Gweithio'n agos ar draws pob rhyngwyneb gyda; rhanddeiliaid mewnol, cwmnïau dylunio allanol a chontractwyr i gynhyrchu atebion cost-effeithiol a gwerth ychwanegol.
- Sicrhau bod yr holl wersi a ddysgwyd o'r gwaith gorffenedig yn cael eu hymgorffori mewn prosiectau yn y dyfodol.

## Manyleb y person

### Sgiliau a phrofiad hanfodol:

- Profiad perthnasol ar lefel uwch o ddatblygu ac adeiladu prosiectau seilwaith mawr.
- Profiad heb ei ail o reoli adeiladu peirianyddol llwyddiannus a gwybodaeth dda am yr holl ardaloedd pecyn ffermydd gwynt ar y tir a'u cyd-ddibyniaethau.

- Addysg i lefel radd mewn peirianneg sifil neu adeiladu, neu brofiad cyfwerth.
- Gwerthfawrogiad cryf o Reoliadau CDM, systemau gwaith diogel a gofynion amgylcheddol.
- Sgiliau cyfathrebu a thrafod rhagorol, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol mewn tîm.
- Sgiliau cydlynu ac arwain cryf; brwdfrydig iawn; hyderus a dyfeisgar.
- Yr ysgogiad a'r cymhelliant i gadw at y targedau amser, cost ac ansawdd.
- Parodrwydd i deithio o fewn y DU, yn enwedig ar draws Cymru.

## Sgiliau a phrofiad dymunol:

- Aelod Siartredig o gorff peirianneg proffesiynol.
- Dealltwriaeth ddofn o ddylunio sifil ar y tir gydol cylch bywyd y prosiect, o cyn y FEED i'r dyluniad manwl.
- Y gallu i gyflawni/cymryd rhan mewn prosesau rheoli risg ac opsiynau i gael y canlyniadau/atebion mwyaf ffafriol.
- Profiad o weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd.
- Egwyddorion dylunio geodechnegol a strwythurol.
- Technegau arolygu daearol ac yn yr awyr.
- Byddai'r gallu i siarad Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu yn ddymunol.

# Amodau a thelerau penodi

- Cyflog: Cystadleuol
- Math o swydd: Parhaol
- Oriau'r wythnos: Llawn amser – 37 awr yr wythnos
- Gwyliau Blynyddol: 28 diwrnod yn codi i 29 diwrnod ar ôl dwy flynedd o wasanaeth a 30 diwrnod ar ôl tair blynedd o wasanaeth
- Gwyliau Cyhoeddus: 8 diwrnod y flwyddyn

# Buddion eraill

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig
Gweithio hyblyg

# Llinell amser ddangosol

Rhaid i geisiadau ddod i law erbyn 2 Ebrill 2024 am hanner dydd. Dylai'r ymgeiswyr hynny a ddewisir i fynychu cyfweliad glywed drwy e-bost erbyn 8 Ebrill 2024. Ni fydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau uchod yn cael eu hystyried.

# Sut i wneud cais

I wneud cais am y swydd hon, darparwch y canlynol:

1. CV cynhwysfawr sy'n nodi hanes eich gyrfa gyda chyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol a manylion eich pecyn tâl presennol.

2. Datganiad ategol ar ffurf llythyr eglurhaol o ddim mwy na dwy ochr A4, yn esbonio sut rydych chi'n credu bod eich sgiliau a'ch profiad yn bodloni'r cyfrifoldebau allweddol a'r gofynion manyleb y person ar gyfer y rôl. Noder bod y llythyr eglurhaol yn rhan bwysig o'ch cais. Gofalwch eich bod yn cynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn dilys er mwyn i ni allu cysylltu â chi.

3. Manylion dau ganolwr proffesiynol ynghyd â datganiad byr o'u rôl ac ers faint maen nhw'n eich adnabod chi, gyda disgwyliad mai eich cyflogwr presennol neu gyflogwr diwethaf fydd un ohonynt. Ni fyddwn yn cysylltu â'r canolwyr heb eich caniatâd chi'n gyntaf.

4. Ffurflen monitro amrywiaeth gyflawn.

5. Nodwch yn glir yn eich llythyr eglurhaol, pe baech yn cyrraedd y rhestr fer, p'un a ydych chi'n dymuno i'ch cyfweliad gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Ar ôl ei gwblhau, e-bostiwch eich cais, yn ddelfrydol ar ffurf MS Word, i'r cyfeiriad e-bost canlynol: YmatebionYnni-EnergyResponses@llyw.cymru

# Gwybodaeth bellach am y rôl

Os oes gennych ymholiad am unrhyw agwedd ar y broses benodi, angen gwybodaeth ychwanegol neu os hoffech gael trafodaeth anffurfiol a chyfrinachol, e-bostiwch YmatebionYnni-EnergyResponses@llyw.cymru. Byddwn yn parchu preifatrwydd unrhyw gyswllt cychwynnol neu fynegiant o ddiddordeb yn y rôl hon, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol i bawb. Rydyn ni’n annog ceisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dydyn ni ddim yn gwahaniaethu ar sail hil, crefydd, lliw, tarddiad cenedlaethol, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol neu anabledd.

Os oes gennych nam neu anabledd a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o’r broses recriwtio, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi pe baech yn llwyddiannus, anfonwch e-bost at YmatebionYnni-EnergyResponses@gov.wales cyn gynted â phosibl a bydd aelod o’n tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i fynd i’r afael ag unrhyw gwestiynau sydd gennych.

# Y Gymraeg

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn ein bywydau beunyddiol ac yn ein gweithleoedd. Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw swydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd yr ymgeiswyr hynny sy'n cyflwyno eu ceisiadau yn y Gymraeg yn cael eu hasesu yn yr un modd â cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg. Gallwch hefyd ofyn am gael eich cyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg. Os hoffech i'ch cyfweliad gael ei gynnal yn Gymraeg, gofynnwch am hynny yn eich llythyr eglurhaol.

# Caniatâd data

Byddwn yn prosesu'r data rydych chi'n ei ddarparu i ni wrth wneud cais am y rôl hon yn ôl yr angen ar gyfer cyflawni'r dasg hon, sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd. Byddwn hefyd yn rhannu'r data gydag unrhyw broseswyr data trydydd parti sy'n gweithredu ar ein rhan i ddarparu'r gwasanaeth recriwtio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

# Ffurflen monitro amrywiaeth

Mae Trydan Gwyrdd Cymru wedi ymrwymo i werthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gweithlu. Er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni'n llawn, mae'n hanfodol ein bod yn monitro ein gweithdrefnau recriwtio a dethol. Felly, hoffem i chi gwblhau'r holiadur atodedig.

**Diben a Manteision**
Mae angen i ni ddarganfod a yw ein polisi yn gweithio'n ymarferol a sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu wrth benodi a dyrchafu staff. Pwrpas monitro yw adnabod tueddiadau sy'n dangos problemau, fel y gallwn eu cywiro er mwyn darparu proses benodi decach a mwy effeithiol i bob ymgeisydd.

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth rwy'n ei chyflenwi?**

- Bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynwch yn cael ei thrin **yn gwbl gyfrinachol** ac ni fydd yn effeithio ar eich cais mewn unrhyw ffordd.
- Byddwn yn defnyddio'r data i baratoi adroddiadau ystadegol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o ffigurau anhysbys, lle gallwn fonitro niferoedd ein hymgeiswyr a chanlyniadau ein prosesau recriwtio a dethol.
- Dim ond y rhai sy'n monitro hysbysebion swyddi fydd yn gallu gweld y data hwn. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n hollol ddienw, ond mae enwau'n cael eu cynnwys ar ffurflenni er mwyn croeswirio rhwng y ffurflenni a'r gwaith papur sydd i'w wneud gan ein gweithwyr proffesiynol recriwtio.
- **Ni fydd** staff sy'n rhan o'r broses sifftio a chyfweld ar gyfer y swydd yn gweld eich holiadur.
- Ni fydd y wybodaeth sy'n cael ei choladu yn arwain at system gwota nac yn cael ei defnyddio yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

**Ein helpu ni i'ch helpu chi**
Rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad yn fawr; a fyddech cystal â’n helpu ni i wella cyfleoedd cyfartal. Rydym yn annog **pob** ymgeisydd i lenwi'r holiadur, ei arbed ar wahân a'i ddychwelyd gydag adrannau eraill eich dogfennau cais.

Diolch am eich cydweithrediad.